Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Ferch O'r Sger

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae’r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel o’i hunan, y staff a’r disgyblion. Mae’n annog disgyblion i fod yn falch o’u Cymreictod ac i siarad Cymraeg ar bob adeg posibl. Mae gwella dysgu a lles disgyblion yn bwysig iawn i’r pennaeth a’r staff.

Mae athrawon ac oedolion eraill yn gofalu’n dda am y disgyblion ac yn eu trin yn deg a gyda pharch. Maent yn gwneud yr ysgol yn fan diogel a chartrefol i ddisgyblion ac yn sicrhau bod bron bob un yn hapus ac yn ymddwyn yn dda yno. Maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn paratoi tasgau priodol er mwyn iddynt wneud cynnydd da. Maent yn darparu cwricwlwm diddorol i ddisgyblion sy’n dal eu dychymyg, yn eu haddysgu am eu hardal leol, ac yn eu helpu i fwynhau dysgu. Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith bod y rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Er bod athrawon yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio’r medrau hyn mewn gwahanol ffyrdd, nid ydynt yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt ysgrifennu darnau hir o destun nac i ymarfer eu medrau rhifedd mewn tasgau diddorol ‘go iawn’.

Mae arweinwyr yn adnabod cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella yn dda. Er hyn, nid yw’r prif flaenoriaethau presennol yn ddigon clir, nac yn seiliedig ar gynnydd neu les disgyblion. Mae hynny’n ei gwneud hi’n anodd i arweinwyr fesur cynnydd yn eu herbyn.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth lwyddiannus â’r Cylch Meithrin lleol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn setlo’n gyflym yn yr ysgol wrth ddechrau yn y dosbarth meithrin. Mae hefyd bartneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a’r ysgol uwchradd Gymraeg lleol sy’n paratoi disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dda ar gyfer symud yno pan ddaw’r amser.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Sicrhau bod y prif flaenoriaethau gwella yn glir ac yn hawdd i werthuso'u heffaith ar gynnydd neu les disgyblion

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol a phwrpasol i ysgrifennu'n estynedig

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i gymhwyso'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau cyfoethog

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2025